



Dogfen Ymgynghori Llywodraeth Cymru

Rheoliadau Safonau'r Gymraeg (Ymgymrwyr Dŵr a Charthffosiaeth)

Dyddiad cyhoeddi: 25 Tachwedd 2016

Camau gweithredu sy'n ofynnol: Ymatebion erbyn 17 Chwefror 2017

Safonau'r Gymraeg: Rheoliadau (Ymgymmerwyr Dŵr a Charthffosiaeth)

Trosolwg Mae'r ymgynghoriad hwn yn ceisio barn ar y Rheoliadau drafft i bennu Safonau'r Gymraeg ar gyfer ymgymmerwyr dŵr a charthffosiaeth ar gyfer Cymru gyfan neu unrhyw ran o Gymru. Bydd y Rheoliadau hyn yn galluogi Comisiynydd y Gymraeg i osod dyletswyddau arnynt mewn cysylltiad â'r Gymraeg.

Rydym ni'n cynnal yr ymgynghoriad hwn er mwyn sicrhau bod gan bawb sydd â diddordeb ddigon o gyfle i ddweud eu dweud am y gyfres hon o safonau drafft. Cafodd y cwmnïau a oedd yn ddarostyngedig i'r gyfres hon o safonau eu cynnwys yn nhrydydd ymchwiliad Comisiynydd y Gymraeg, a gynhaliwyd rhwng 26 Mai a 18 Awst 2015. Seiliwyd canfyddiadau'r Comisiynydd, a gyflwynwyd i Weinidogion Cymru ar ffurf Adroddiad Safonau, ar sylwadau a gafodd y Comisiynydd yn ystod yr ymchwiliad hwnnw. Ar ôl rhoi ystyriaeth ddyledus i adroddiad y Comisiynydd, rydym ni'n awr yn dymuno rhoi cyfle i aelodau o'r cyhoedd, y cyrff a fydd yn ddarostyngedig i'r safonau, ac unrhyw un arall â diddordeb, gael dweud eu dweud am y Rheoliadau a fydd yn pennu'r safonau er mwyn llywio eu datblygiad.

Sut i ymateb Dylid e-bostio/postio ymatebion i'r ymgynghoriad hwn i'r cyfeiriad isod, i gyrraedd erbyn **17 Chwefror 2017** fan hwyraf.

Gwybodaeth bellach a dogfennau perthnasol Gellir gwneud cais am fersiynau o'r ddogfen hon mewn print bras, mewn Braille neu mewn ieithoedd eraill.

Adroddiad Safonau Comisiynydd y Gymraeg – Adran 64 Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011: Atodlen 8: Personau neilltuedig sy'n darparu swyddfeydd post i'r cyhoedd ac ymgymmerwyr dŵr a charthffosiaeth (Comisiynydd y Gymraeg, 2015)

Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011

Mae'r dogfennau ymgynghori ar gael o wefan Llywodraeth Cymru yn www.llyw.cymru/ymgynghoriadau

Manylion cyswllt

I gael rhagor o wybodaeth:
Is-adran y Gymraeg
Llywodraeth Cymru
Parc Cathays
Caerdydd
CF10 3NQ
e-bost:
UnedlaithGymraegWelshLanguageUnit@cymru.gsi.gov.uk
Ffôn: 0300 0604400

Diogelu Data

Sut y defnyddir y safbwyntiau a'r wybodaeth

Bydd unrhyw ymateb a anfonwch atom yn cael ei weld yn llawn gan staff Llywodraeth Cymru sy'n gweithio ar y materion y mae'r ymgynghoriad hwn yn ymdrin â nhw. Mae'n bosibl y bydd aelodau eraill o staff Llywodraeth Cymru yn gweld yr ymateb hefyd, er mwyn eu helpu i gynllunio ymgynghoriadau ar gyfer y dyfodol.

Mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu cyhoeddi crynodeb o'r ymatebion i'r ddogfen hon. Mae'n bosibl hefyd y byddwn yn cyhoeddi'r ymatebion yn llawn. Fel arfer, bydd enw a chyfeiriad (neu ran o gyfeiriad) yr unigolyn neu sefydliad a anfonodd yr ymateb yn cael eu cyhoeddi gyda'r ymateb. Mae hynny'n helpu i ddangos bod yr ymgynghoriad wedi'i gynnal yn briodol. Os nad ydych yn dymuno i'ch enw a'ch cyfeiriad gael eu cyhoeddi, rhowch wybod inni yn ysgrifenedig wrth anfon eich ymateb. Byddwn wedyn yn cuddio'ch manylion.

Mae'n bosibl y bydd yr enwau a'r cyfeiriadau y byddwn wedi'u cuddio yn cael eu cyhoeddi'n ddiweddarach, er nad yw hynny'n debygol o ddigwydd yn aml iawn. Mae Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000 a Rheoliadau Gwybodaeth Amgylcheddol 2004 yn caniatáu i'r cyhoedd gael gweld gwybodaeth a gedwir gan lawer o gyrff cyhoeddus, gan gynnwys Llywodraeth Cymru. Mae hynny'n cynnwys gwybodaeth sydd heb ei chyhoeddi. Fodd bynnag, mae'r gyfraith hefyd yn caniatáu i ni gadw gwybodaeth yn ôl dan rai amgylchiadau. Os bydd unrhyw un yn gofyn am gael gweld gwybodaeth a gadwyd yn ôl gennym, bydd rhaid inni benderfynu a ydym am ei rhyddhau ai peidio. Os bydd rhywun wedi gofyn inni beidio â chyhoeddi ei enw a'i gyfeiriad, bydd hynny'n ffaith bwysig i ni ei chadw mewn cof. Fodd bynnag, fe allai fod rheswm pwysig dros orfod datgelu enw a chyfeiriad unigolyn, er ei fod wedi gofyn i ni beidio â'u cyhoeddi. Byddem yn cysylltu â'r unigolyn ac yn gofyn am ei farn cyn gwneud unrhyw benderfyniad terfynol i ddatgelu'r wybodaeth.

Cynnwys

Rhagair gan y Gweinidog	2
1. Cyflwyniad	3
1.1 Swyddogaethau Llywodraeth Cymru a'r Comisiynydd	3
1.2 Pwy sy'n ddarostyngedig i'r Rheoliadau drafft?	4
1.3 Adeiladu ar Gynlluniau Iaith Gymraeg	4
1.4 Y broses – sut y bydd y safonau'n gweithio?	4
1.5 Hysbysiadau cydymffurfio	5
1.6 Pa ganlyniadau yr ydym ni'n eu rhagweld?	6
1.7 Barn pwy yr ydym ni'n dymuno ei chlywed am y Rheoliadau a beth yr ydym ni eisiau gwybod?	6
2. Safonau ar gyfer ymgwymerwyr dŵr a charthffosiaeth	7
2.1 Safonau cyflenwi gwasanaethau	7
2.2 Gohebiaeth	8
2.3 Galwadau ffôn	8
2.4 Cyhoeddiadau	8
2.5 Gwefannau	9
2.6 Cyfleusterau sgwrsio ar-lein	9
2.7 Materion eraill	9
2.8 Eithriadau	10
3. Aseiad Effaith Rheoleiddiol	11
4. Sut i ymateb	12

Rhagair gan y Gweinidog

Mae Llywodraeth Cymru yn ymrwymedig i gryfhau'r gwasanaethau Cymraeg a ddarperir i bobl Cymru. Y cam nesaf yn y broses hon yw cynnwys cwmnïau sy'n darparu gwasanaethau dŵr a charthffosiaeth i'r cyhoedd o fewn system safonau'r Gymraeg.

Bwriadaf i'r safonau hyn adlewyrchu'r berthynas rhwng ymgymerydd dŵr a charthffosiaeth a'u cwsmeriaid, a chanolbwyntio ar sicrhau bod y gwasanaethau a ddefnyddir fwyaf gan y cyhoedd, ar gael iddynt yn Gymraeg. Rydym ni'n dymuno gweld y safonau'n cyfrannu at nod polisi'r Llywodraeth, sef cynyddu defnydd o'r Gymraeg, ac felly rydym ni eisiau i'r cyhoedd allu defnyddio'r iaith wrth ymdrin â'r cwmnïau hyn. Rydym ni'n awyddus i weld y cwmnïau hyn yn canolbwyntio eu hymdrechion ar sefyllfaoedd lle maent yn ymdrin yn uniongyrchol â chwsmeriaid – gan barhau i fuddsoddi mewn darparu gwasanaethau Cymraeg i'r cwsmeriaid, yn enwedig yng nghyd-destun technolegau newydd megis apiau a gwasanaethau ar-lein.

Rwy'n ymwybodol bod Comisiynydd y Gymraeg yn ddiweddar wedi cwblhau ymchwiliad safonau i'r darparwr nwy a thrydan, ac rydym ni'n aros am adroddiad y Comisiynydd a fydd yn nodi ei chasgliadau yn dilyn yr ymchwiliad hwnnw. O safbwynt y cwsmer, mae'r ffordd y mae ei ddarparwr nwy a thrydan yn rhoi gwybodaeth iddo yn debyg i'r hyn a gaiff gan ei ddarparwr dŵr. Byddwn i'n disgwyl felly i'r Rheoliadau drafft hyn fod o ddiddordeb i'r sector cyfleusterau ehangach a'u cwsmeriaid, er y byddwn ni'n ystyried pob sector ar wahân yng ngoleuni argymhellion y Comisiynydd.

Rwy'n awyddus iawn i glywed gan aelodau o'r cyhoedd a'r cwmnïau eu hunain, fel y gallwn ni farnu pa un a fydd y Rheoliadau drafft hyn yn gwella'r gwasanaethau a ddarperir gan y cwmnïau hyn i gwsmeriaid yn Gymraeg.



Alun Davies AC
Gweinidog y Gymraeg a Dysgu
Gydol Oes

1. Cyflwyniad

Mae Llywodraeth Cymru yn paratoi Safonau'r Gymraeg ('safonau') dan Fesur y Gymraeg (Cymru) 2011 ("y Mesur") sy'n rhoi hawliau gwell y gellir eu gorfodi i siaradwyr Cymraeg i ddefnyddio'r Gymraeg.

Caiff rheoliadau sy'n pennu safonau ar gyfer cyrff eu cyflwyno'n raddol a chânt eu paratoi â'r bwriad o fod yn rhesymol, yn gymesur ac yn berthnasol i'r cyrff a enwir ym mhob cyfres o Reoliadau. Rydym ni eisoes wedi gwneud pedair cyfres o Reoliadau sydd wedi pennu safonau ar gyfer 80 o gyrff. Mae'r rhain yn cynnwys Awdurdodau Lleol, Parciau Cenedlaethol, Gweinidogion Cymru, y gwasanaethau argyfwng, a chyrrff megis y BBC, Amgueddfa Genedlaethol Cymru a Chyfoeth Naturiol Cymru. Ers hynny, mae Comisiynydd y Gymraeg ('y Comisiynydd') wedi'i gwneud yn ofynnol i'r cyrff hyn gydymffurfio â'r safonau.

Mae'r safonau a bennir yn y Rheoliadau drafft sy'n ddarostyngedig i'r ymgynghoriad hwn, wedi'u drafftio'n arbennig ar gyfer ymgymeryddwyr dŵr a charthffosiaeth sy'n darparu gwasanaethau dŵr a/neu garthffosiaeth ar gyfer Cymru gyfan neu unrhyw ran o Gymru ("cwmnïau").

Rhwng 26 Mai a 18 Awst 2015, cynhaliodd y Comisiynydd Ymchwiliad Safonau â'r cwmnïau canlynol:

- Dŵr Cymru
- Severn Trent Water
- Dee Valley Water
- SSE Water

Mae'r cwmnïau hyn yn aelodau o un neu fwy o'r grwpiau canlynol o bersonau a restrir yn Atodlen 8 i'r Mesur:

- Personau neilltuedig sy'n ymgymeryddwyr dŵr ar gyfer Cymru gyfan neu unrhyw ran ohoni.
- Personau neilltuedig sy'n ymgymeryddwyr carthffosiaeth ar gyfer Cymru gyfan neu unrhyw ran ohoni.

Mae'r Rheoliadau drafft yn gwneud y safonau'n berthnasol ar gyfer y grwpiau hyn o bersonau yn benodol. O ganlyniad, gallai'r Comisiynydd ofyn i unrhyw ymgymeryddwyr dŵr neu garthffosiaeth a benodir ar gyfer Cymru gyfan neu unrhyw ran ohoni, gydymffurfio â'r safonau a bennir yn y Rheoliadau drafft.

Mae Gweinidogion Cymru wedi penderfynu cynnal ymgynghoriad ar y Rheoliadau drafft. Mae'r ymgynghoriad hwn yn gyfle i unrhyw un â diddordeb yn y Rheoliadau drafft gael dweud ei ddweud ynglŷn â nhw.

1.1 Swyddogaethau Llywodraeth Cymru a'r Comisiynydd

Mae'n rhaid creu'r safonau drwy eu pennu mewn Rheoliadau. Swyddogaeth Llywodraeth Cymru yw drafftio'r safonau a'r Rheoliadau sy'n eu cynnwys, a hynny yn unol ag adroddiad ymchwiliad safonau'r Comisiynydd a'r gwaith ymgysylltu â rhanddeiliaid a wnaed gan y Llywodraeth ei hun. Ar ôl i'r rheoliadau gael eu cymeradwyo gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru, y Comisiynydd fydd i benderfynu pa safonau i'w gorfodi ar gwmnïau unigol.

1.2 Pwy sy'n ddarostyngedig i'r Rheoliadau drafft?

Unrhyw berson neilltuedig sy'n ymgwymerwr dŵr a/neu garthffosiaeth ar gyfer Cymru gyfan neu unrhyw ran ohoni. Mae "person neilltuedig" yn y cyd-destun hwn yn golygu person na chaiff ei gynnwys yn Atodlen 6 i'r Mesur.

1.3 Adeiladu ar Gynlluniau Iaith Gymraeg

Mae'r pedwar cwmni a enwir uchod (a oedd yn destun ymchwiliad safonau'r Comisiynydd) ar hyn o bryd yn darparu gwasanaethau Gymraeg yn seiliedig ar eu Cynlluniau Iaith Gymraeg a baratowyd o dan Ddeddf yr Iaith Gymraeg 1993.

Bu'r Cynlluniau'n llwyddiannus wrth godi proffil y gwasanaethau a ddylai fod ar gael i'r cyhoedd yn Gymraeg, yn ogystal â sicrhau bod llawer o'r gwasanaethau hynny bellach yn cael eu darparu yn Gymraeg.

Ceir system orfodi gryfach ynghlwm wrth y safonau, a bydd cyrff y mae gofyn iddynt gydymffurfio â'r safonau drafft dan ddyletswydd i ddarparu gwasanaethau Gymraeg penodol. Rydym yn hyderus bod y safonau drafft yn darparu sail gadarn, a fydd yn caniatáu i'r Comisiynydd orfodi safonau rhesymol a chymesur a fydd yn cynnig gwasanaethau Gymraeg i siaradwyr Gymraeg.

Mae'r cwmnïau y mae'r safonau hyn yn berthnasol iddynt yn dod o dan Atodlen 8 y Mesur. Golyga hyn mai'r safonau cyflenwi gwasanaethau a'r safonau cadw cofnodion yn unig y gellir eu gwneud yn benodol gymwys iddynt. Effaith hyn yw bod rhai o'r ymrwymïadau yn eu Cynlluniau Iaith Gymraeg presennol yn cael eu colli. Er enghraifft, ymrwymiad Dŵr Cymru i asesu canlyniadau ieithyddol polisïau a mentrau newydd, ac ymrwymiad y pedwar cwmni i gynnal rhestr o gyflogeion sy'n gallu siarad Gymraeg, nodi swyddi lle mae angen sgiliau Gymraeg ac annog a chefnogi staff i ddysgu Gymraeg neu wella eu sgiliau Gymraeg.

Mae Llywodraeth Cymru o'r farn bod y manteision o gael dyletswyddau gorfodadwy clir ar gyfer rhai gwasanaethau a gweithgareddau yn fwy na'r anfanteision o golli ymrwymïadau o Gynlluniau Iaith nad oeddent yn ddarostyngedig i system orfodi mor llym.

1.4 Y broses – sut y bydd y safonau'n gweithio?

Caiff pob cyfres o Reoliadau sy'n pennu Safonau ei theilwra i adlewyrchu'r ffordd y mae'r sector y maent yn perthyn iddo yn darparu gwasanaethau ac yn ymgymryd â gweithgareddau. Mae'r Rheoliadau drafft hyn yn cynnwys safonau ac amodau penodol er mwyn adlewyrchu'r ffordd y caiff gwasanaethau eu darparu gan y cwmnïau sy'n darparu gwasanaethau dŵr a charthffosiaeth.

Cyn bod yn rhaid i gorff gydymffurfio â safon, mae'n rhaid i nifer o amodau gael eu bodloni. Dyma'r amodau perthnasol:

- (i) Mae'r corff yn rhan o gategori yn Atodlenni 7 ac 8 i'r Mesur;
- (ii) Mae'r safon wedi'i llunio i fod yn benodol gymwys i'r corff. Golyga hyn fod Gweinidogion Cymru, mewn rheoliadau, wedi awdurdodi'r Comisiynydd i roi hysbysiad cydymffurfio i'r corff, gan ofyn iddo gydymffurfio â safon;

- (iii) Mae'r Comisiynydd wedi cyflwyno hysbysiad cydymffurfio i'r corff sy'n gofyn iddo gydymffurfio â'r safon, a bod yr hysbysiad cydymffurfio hwnnw mewn grym.

Mae'r Rheoliadau drafft yn pennu'r safonau y bwriadwn eu gwneud yn benodol gymwys i'r cwmnïau sy'n dod o dan un o'r grwpiau a restrir yn Atodlen 4 i'r Rheoliadau drafft.

Gellir gorfodi'r categorïau canlynol o safonau ar y cwmnïau dŵr a charthffosiaeth:

Safonau cyflenwi gwasanaethau. Mae'r rhain yn ymwneud â chyflenwi gwasanaethau i berson arall neu pan fo'r cwmni'n ymdrin â pherson mewn cysylltiad â chyflenwi gwasanaethau. Fe'u bwriedir i hyrwyddo a hwyluso defnydd o'r Gymraeg, neu i sicrhau na chaiff ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg. Gan fod y cwmnïau dŵr a charthffosiaeth yn dod o dan Atodlen 8 i'r Mesur, gall safon cyflenwi gwasanaethau fod yn berthnasol dim ond i'r graddau y mae'n ymwneud â'r gwasanaethau y mae'r cwmni'n eu darparu i'r cyhoedd wrth arfer ei swyddogaethau fel ymglymerwr dŵr a/neu garthffosiaeth.

Safonau cadw cofnodion. Mae'r safonau hyn yn gofyn i'r cwmni gadw cofnodion ynglŷn â rhai o'r safonau eraill, ac am unrhyw gwynion a gyflwynir i'r cwmni. Bydd y cofnodion hyn yn cynorthwyo'r Comisiynydd wrth reoleiddio cydymffurfiaeth y cwmni â'r safonau.

Safonau atodol. Mae'r Rheoliadau drafft hefyd yn cynnwys safonau atodol. Mae'r safonau hyn yn ymdrin ag amrywiol faterion gan gynnwys cynhyrchu adroddiad blynyddol, trefniadau monitro a darparu gwybodaeth i'r Comisiynydd.

1.5 Hysbysiadau cydymffurfio

Noda'r Rheoliadau drafft amrywiaeth y safonau y gellid eu gorfodi ar gwmni. Nid oes unrhyw ofyniad ar y Comisiynydd i ofyn i bob cwmni gydymffurfio â phob safon.

Mae gan y Comisiynydd hyblygrwydd wrth ddewis pa safonau y mae'n rhaid i gwmni gydymffurfio â nhw ac i ba raddau, yn ogystal â phennu erbyn pa ddyddiad y gofynnir i'r cwmni gydymffurfio â safon. Noda'r Comisiynydd yr wybodaeth honno mewn hysbysiad cydymffurfio a roddir i'r cwmni.

Bydd gan y Comisiynydd felly lawer o ddewisiadau wrth bennu pa safonau i'w gorfodi ar gwmni. Efallai na fydd yn rhaid i gwmni gydymffurfio â safon heblaw dan amgylchiadau penodol ac nid dan amgylchiadau eraill, neu mewn rhai meysydd ac nid mewn meysydd eraill – gan ddibynnu ar beth sy'n berthnasol iddynt hwy. Mae'r dull hwn yn darparu ar gyfer gwella'u darpariaeth yn raddol yn y dyfodol.

Mae rhai safonau'n ddibynnol ar ei gilydd. Mae'r rheoliadau felly'n cynnwys tabl i gyd-fynd â'r safonau cyflenwi gwasanaethau, gan roi manylion am ba safonau eraill y bydd hefyd angen iddynt gael eu gorfodi pan gaiff safon benodol ei chynnwys mewn hysbysiad cydymffurfio.

Dull o apelio

Bydd cwmni'n gallu herio'r gofyniad sydd arno i gydymffurfio â safon benodol ar sail pa un a yw'n rhesymol ac yn gymesur gofyn iddo wneud hynny.

Yn y lle cyntaf, bydd cwmni'n gallu cyflwyno her i'r Comisiynydd, yn gofyn i'r Comisiynydd benderfynu a yw'r gofyniad arno i gydymffurfio â safon benodol yn yr hysbysiad cydymffurfio yn rhesymol ac yn gymesur. Os na allant ddatrys yr anghydfod, mae modd apelio i Dribiwnlys y Gymraeg, ac wedi hynny i'r Uchel Lys (ar fater cyfreithiol).

Cosbau

Y Comisiynydd a fydd yn gyfrifol am orfodi cydymffurfiaeth â safonau. Mewn achosion pan fo'r Comisiynydd yn dod i'r casgliad bod cwmni wedi methu â chydymffurfio â safon, gall y Comisiynydd gymryd camau gorfodi.

1.6 Pa ganlyniadau yr ydym ni'n eu rhagweld?

Cafodd y safonau eu drafftio â'r bwriad o:

- Wella gwasanaethau Cymraeg y gall siaradwyr Cymraeg ddisgwyl eu cael gan y cwmnïau sy'n darparu gwasanaethau dŵr a charthffosiaeth iddynt
- Cynyddu defnydd pobl o wasanaethau Cymraeg
- Gwneud hi'n glir i gwmnïau yr hyn y mae angen iddynt ei wneud o ran y Gymraeg.

1.7 Barn pwy yr ydym ni'n dymuno ei chlywed am y Rheoliadau a beth yr ydym ni eisiau gwybod?

Rydym ni'n awyddus i glywed gan unrhyw un sydd â diddordeb yn y safonau drafft, ac yn y defnydd o'r Gymraeg gan ymgymmerwyr dŵr a charthffosiaeth. Bydd yr ymgynghoriad ar agor hyd nes 17 Chwefror 2017 er mwyn sicrhau bod gan aelodau o'r cyhoedd, y cwmnïau a fydd yn ddarostyngedig i'r safonau hyn, a rhanddeiliaid eraill â diddordeb, ddigon o gyfle i ddweud eu dweud am y Rheoliadau. Mae croeso i chi wneud unrhyw sylwadau ar unrhyw agwedd ar y Rheoliadau drafft. Dyma'r cyfle i chi roi sylw ar y safonau y gall y Comisiynydd ddewis eu gorfodi ar y cwmnïau a nodir yn Atodlen 4. Ni all y Comisiynydd amrywio'r safonau'n hwyrach, dim ond dewis pa un a ddylai'r cwmni gydymffurfio, neu ddewis o dan ba amgylchiadau neu ym mha feysydd y bydd yn rhaid i'r cwmni gydymffurfio.

Mae holiadur sy'n cyd-fynd yn gofyn am eich barn ar agweddau penodol ar y Rheoliadau drafft.

2. Safonau ar gyfer ymgymerwyr dŵr a charthffosiaeth

2.1 Safonau cyflenwi gwasanaethau

Er bod y safonau hyn wedi'u teilwra'n benodol i fynd i'r afael â'r berthynas rhwng cwmnïau dŵr a charthffosiaeth a'u cwsmeriaid, maent wedi'u seilio ar gyfresi blaenorol o Reoliadau sydd wedi pennu safonau ar gyfer cyrff eraill. Ceisia'r ymgynghoriad hwn eich barn ar briodoldeb y Rheoliadau drafft yn eu cyfanrwydd. Gofynnir cwestiynau penodol am rai o'r safonau yr ydym ni'n bwriadu eu pennu ar gyfer cwmnïau dŵr a charthffosiaeth, ond hoffem eich barn chi ar bob un o'r safonau arfaethedig.

Nid yw'r ddogfen hon yn trafod pob safon unigol, ond mae adrannau 2.2-2.8 isod yn amlygu rhai materion a fyddai o ddiddordeb arbennig i'r cwmnïau hyn a'u cwsmeriaid. Caiff llawer o'r gwasanaethu neu'r gweithgareddau hyn eisoes eu darparu yn Gymraeg o ganlyniad i Gynlluniau Iaith Gymraeg y cwmnïau.

Mae'r safonau cyflenwi gwasanaethau drafft a nodir yn Atodlen 1 yn ceisio cynnwys y gweithgareddau a ymgymerir gan gwmnïau dŵr a charthffosiaeth wrth ddarparu gwasanaethau i'w cwsmeriaid. Lluniwyd rhestr y gweithgareddau yn unol â gofynion Atodlen 9 i'r Mesur, sy'n rhestru gweithgareddau mewn cysylltiad â pha safonau cyflenwi gwasanaethu y mae'n rhaid eu pennu. Mae'r Rheoliadau drafft yn cynnwys safonau sy'n ymwneud â'r gweithgareddau canlynol:

- Gohebiaeth
- Galwadau ffôn
- Cyfarfodydd nad ydynt yn agored i'r cyhoedd
- Cyfarfodydd sydd yn agored i'r cyhoedd
- Digwyddiadau cyhoeddus
- Cyhoeddusrwydd a hysbysebu
- Deunydd arddangos
- Llundio dogfennau
- Ffurflenni
- Gwefannau a gwasanaethau ar-lein (gan gynnwys apiau a chyfleusterau sgwrsio ar-lein)
- Peiriannau hunanwasanaeth
- Cyfryngau cymdeithasol
- Arwyddion
- Derbynn ymwelwyr
- Hysbysiadau
- Dyfarnu grantiau
- Codi ymwybyddiaeth am wasanaeth Cymraeg
- Hunaniaeth gorfforaethol
- Cynnig cyrsiau

Er y rhestrir dyfarnu contractau fel gweithgaredd yn Atodlen 9 i'r Mesur, nid ydym wedi paratoi safonau yn ymwneud â hynny. Rydym ni o'r farn y byddai'n afresymol gwneud safonau yn benodol gymwys i'r cwmnïau yn ymwneud â'r gweithgaredd hwnnw. Contractau adeiladu neu beirianeg ar raddfa fawr yw contractau a gyhoeddir gan gwmnïau yn bennaf. Byddai cyhoeddi'r rhain yn Gymraeg yn golygu costau cyfieithu sylweddol i'r cwmnïau. Mae ein gwaith cwmpasu o'r diwydiant wedi dangos nad oes galw am y dogfennau hyn yn Gymraeg ar hyn o bryd. Rydym ni'n credu felly y byddai'n afresymol gofyn i gwmnïau gydymffurfio â safonau yn ymwneud â'r gweithgaredd hwn.

Yn ogystal, rydym ni hefyd yn ystyried nad yw dyfarnu'r contractau hyn yn weithgaredd sy'n ymdrin yn uniongyrchol â chwsmeriaid. Nid ydym ni'n credu y byddai gorfodi'r

safonau hyn ar ddyfarnu contractau yn cyfrannu at gynyddu defnydd cwsmeriaid o'r Gymraeg, sef prif nod polisi y safonau hyn.

2.2 Gohebiaeth

Ein bwriad yw bod y safonau hyn yn adlewyrchu'r berthynas rhwng cwmnïau dŵr a charthffosiaeth a'u cwsmeriaid, a bod y mathau mwyaf cyffredin o ryngweithio rhyngddynt ar gael iddynt yn Gymraeg.

Mae'r rhan fwyaf o'r safonau drafft sy'n ymwneud â gohebiaeth yn gyfyngedig i ohebiaeth a gynhyrchir gan system. Diffiniwyd hyn fel biliau, ceisiadau i ddarllen mesurydd, gohebiaeth yn ymwneud â chyfrifon newydd a gohebiaeth yn ymwneud â chau cyfrifon. Rydym ni'n ystyried mai'r rhain yw'r mathau o ohebiaeth y mae cwsmeriaid yn eu derbyn amlaf gan eu cwmnïau dŵr a charthffosiaeth. Byddai angen cynhyrchu cylchlythyron a anfonir i lawer o aelodau o'r cyhoedd yn Gymraeg hefyd, os bydd gofyn i gwmni gydymffurfio â safon 3.

Os bydd gofyn i gwmni gydymffurfio â safon 1, byddai gofyn i'r cwmni ymateb yn Gymraeg i ohebiaeth Gymraeg, cyhyd â bod yr ohebiaeth yn ymwneud â'r gwasanaethau y mae'r cwmni'n eu darparu i'r cyhoedd fel ymgymwrwr dŵr neu garthffosiaeth.

2.3 Galwadau ffôn

Wrth gysylltu â'r cwmnïau hyn dros y ffôn, mae cwsmeriaid yn bennaf yn defnyddio llinellau cymorth sy'n cael eu hysbysebu'n eang ar gyhoeddiadau, biliau, a gwefannau'r cwmnïau. Gellir categorio'r rhain yn llinellau cymorth sydd naill ai'n ymdrin ag ymholiadau cwsmeriaid ynglŷn â'u cyfrifon, neu linellau cymorth sy'n helpu i fynd i'r afael â materion gweithredol megis problemau â chyflenwad dŵr. Ac eithrio mewn amgylchiadau eithriadol, ni fyddwn ni'n disgwyl i gwsmer gysylltu â'i gwmni dŵr dros y ffôn gan ddefnyddio rhif arall (er enghraifft, drwy ffonio aelod unigol o staff yn uniongyrchol).

Am y rheswm hwn, credwn mai'r peth gorau yw canolbwyntio ar sicrhau y caiff galwadau i'r llinellau cymorth hyn i gwsmeriaid eu hateb yn Gymraeg. Rydym ni felly wedi rhoi pwyslais yn y safonau drafft ar alwadau ffôn a wneir i'r llinellau cymorth. Rydym ni'n awyddus i glywed gan ymatebwyr pa un a ydynt o'r farn mai hwn yw'r dull gorau.

2.4 Cyhoeddiadau

Nid yw'r Rheoliadau drafft hyn yn nodi pa gategoriâu o ddogfennau y dylid eu cynhyrchu yn Gymraeg. Rydym ni eisiau i'r safonau hyn sicrhau y gall cwsmeriaid ddarllen y cyhoeddiadau y maent yn dymuno'u darllen yn Gymraeg. Fodd bynnag, rydym ni'n ymwybodol bod cwmnïau dŵr a charthffosiaeth dan ddyletswyddau statudol i gynhyrchu nifer o ddogfennau technegol, a rhai ohonynt yn hir iawn. Er y cânt eu cyhoeddi ar eu gwefannau, bwriedir rhai o'r dogfennau hyn ar gyfer rheoleiddwyr y diwydiant ac ni ddisgwylir y bydd aelodau o'r cyhoedd yn dymuno eu darllen. Rydym ni felly eisiau dod o hyd i ffordd o sicrhau y caiff y dogfennau cywir eu cynhyrchu yn Gymraeg, a sicrhau na chaiff adnoddau gwerthfawr eu gwastraffu ar gynhyrchu dogfennau yn Gymraeg na fyddant yn cael eu defnyddio gan gwsmeriaid.

Rydym ni wedi ystyried y ffordd orau i fynd i'r afael â hyn, ac wedi penderfynu ceisio barn ar y dull arfaethedig yn safon 28. Mae'r safon hon yn gofyn i gwmni gyhoeddi dogfen yn Gymraeg pan fo'r pwnc a/neu'r gynulleidfa ddisgwyliedig yn awgrymu y dylid ei chyhoeddi yn Gymraeg. Rydym ni'n hyderus bod y cwmnïau'n ddigon profiadol o ran darparu gwasanaethau Cymraeg i allu penderfynu ar hyn mewn modd gwrthrychol a rhesymol.

2.5 Gwefannau

Rydym wedi datblygu amrywiaeth o safonau yn ymwneud â gwefannau (safonau 34-39) er mwyn rhoi dewis i'r Comisiynydd wrth orfodi safonau ar y cwmnïau hyn.

Byddai safonau 34 i 38 yn gorfodi dyletswyddau yn ymwneud â gwefannau'r cwmnïau yn eu cyfanrwydd. Mae'r dyletswyddau'n amrywio o sicrhau bod pob tudalen ar y wefan ar gael yn Gymraeg a sicrhau bod pob tudalen newydd ar gael yn Gymraeg, i gael hafan a/neu ryngwyneb Cymraeg. Fodd bynnag, rydym ni'n cydnabod mai cyfran fechan o sylfaen gwsmeriaid gyffredinol rhai o'r cwmnïau hyn yw eu sylfaen gwsmeriaid yng Nghymru, ac y gall hyn gyfiawnhau dilyn dull gwahanol. Os caiff safon 39 ei gweithredu, bydd gofyn i gwmni ddarparu gwybodaeth Gymraeg benodedig ar ei wefan ynglŷn â' waith yng Nghymru a'i wasanaethau Cymraeg.

Hoffwn glywed gan ymatebwyr pa un a ydych chi'n credu bod yr amrywiaeth hon o safonau yn ddull rhesymol o safbwynt y cwmni a'r cwsmer, a pha un a yw'n rhoi dewis digonol o safonau i'r Comisiynydd eu gweithredu.

2.6 Cyfleusterau sgwrsio ar-lein

Fel llawer o gwmnïau eraill, mae rhai cwmnïau dŵr a charthffosiaeth yn hyrwyddo eu cyfleusterau sgwrsio ar-lein fel ffordd i gwsmeriaid gysylltu â nhw. Caiff y cyfrwng hwn o gyfathrebu ei hysbysebu'n aml ar wefan cwmni a gall cwsmeriaid ei ddefnyddio yn lle cyfryngau traddodiadol megis anfon llythyr neu alwad ffôn. Mae'n cynnig dull uniongyrchol a rhyngweithiol i gwsmeriaid gyfathrebu â'r cwmni.

Rydym ni wedi ymateb i hyn drwy baratoi safonau drafft (safonau 41 a 41A) sy'n ymwneud yn arbennig â'r math hwn o gyfleuster. Mae'r safonau hyn ar wahân i'r safonau eraill sy'n ymwneud â gwefannau ac apiau. Hoffem glywed gan gwmnïau a chwsmeriaid fel ei gilydd er mwyn pwysu a mesur a yw'r safonau hyn yn rhesymol ac yn ymarferol, a pha un a ydynt yn adlewyrchu'r disgwyliadau sydd gan gwsmeriaid wrth ddefnyddio cyfleusterau sgwrsio ar-lein fel dull cyfathrebu.

2.7 Materion eraill

- Mae'r safonau sy'n ymwneud â chyfarfodydd yn caniatáu i gwmnïau benderfynu a ddylent ddefnyddio cyfieithu ar y pryd neu gyfieithu olynol pan fo cwsmer yn dymuno defnyddio'r Gymraeg mewn cyfarfod. Mae hyn yn ystyried y ffaith efallai y bydd y cwmnïau hyn yn cwrdd â chwsmeriaid mewn amrywiaeth o amgylcheddau, ac nad yw trefnu i gael cyfieithydd ar y pryd bob amser yn ateb ymarferol.
- Oherwydd y ffaith bod gan rai o'r cwmnïau swyddfeydd yn Lloegr, rydym ni wedi cyfyngu'r safonau yn ymwneud â derbyn ymwelwyr i fod yn berthnasol i dderbynfeydd yng Nghymru yn unig.

2.8 Eithriadau

Mae'r Rheoliadau drafft yn nodi rhai amgylchiadau pan na fyddai'r safonau a orfodir ar gwmnïau yn berthnasol.

Mae'r rhain yn cynnwys:

- wrth ymateb i argyfwng sydd wedi digwydd, sydd wrthi'n digwydd neu sydd ar fin digwydd
- wrth ddsbarthu neu gyhoeddi deunydd nas cynhyrchwyd ganddynt
- wrth ddarparu gwasanaethau neu ymgymryd â gweithgareddau ar ran person arall.

3. Asesiad Effaith Rheoleiddiol

Gofynnwyd i'r cyrff sy'n ddarostyngedig i'r Rheoliadau drafft hyn gymryd rhan mewn Asesiad Effaith Rheoleiddiol (AERh) gan Lywodraeth Cymru, yn rhan o drydydd ymchwiliad safonau Comisiynydd y Gymraeg. Dosbarthwyd holiadur yr AERh gyda dogfennaeth Ymchwiliad Safonau'r Comisiynydd, a gofynnwyd i gyrff gyflwyno eu hymatebion AERh yn uniongyrchol i Lywodraeth Cymru.

Seiliwyd ymatebion i'r AERh ar Reoliadau Rhif 1 a baratowyd ar gyfer Gweinidogion Cymru, awdurdodau lleol ac awdurdodau parciau cenedlaethol y defnyddiodd y Comisiynydd fel sail ar gyfer yr Ymchwiliad.

Ceir gwahaniaethau sylweddol rhwng y Rheoliadau drafft sy'n destun yr Ymgynghoriad hwn a'r rhai hynny a ddefnyddiwyd yn ystod Ymchwiliad y Comisiynydd. Rydym ni felly'n gofyn i'r cwmnïau lenwi ffurflen AERh arall yn seiliedig ar y Rheoliadau drafft y cynhelir ymgynghoriad arnynt ar hyn o bryd. Diben yr AERh yw helpu Gweinidogion Cymru i ystyried effaith y rheoliad arfaethedig ar fuddiannau unigolion, grwpiau, cyrff ac ati, er mwyn pwysu a mesur costau a manteision yr holl ddewisiadau sydd ar gael iddynt cyn gweithredu polisi; ac yn fodd o gyflwyno at ddibenion craffu ar y dystiolaeth berthnasol ar effeithiau cadarnhaol a negyddol ymyraethau o'r fath.

4. Sut i ymateb

Rhestrir cwestiynau penodol yn y ffurflen ymateb isod; ac fe'ch gwahoddir i roi atebion i'r cwestiynau hyn, neu i roi sylwadau mwy cyffredinol. Gellir cyflwyno'r ffurflen hon yn electronig neu ar ffurf copi caled, gan ddefnyddio'r manylion cyswllt ar dudalen 2 y ddogfen hon, erbyn dydd Gwener 17 Chwefror 2017.